



Rhwystrau i weithrediad llwyddiannus Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol

YMATEB GAN CgGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein pwrpas yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.
2. Rydym wedi ymgynghori'n helaeth ar draws y sector gwirfoddol wrth ddrafftio'r ymateb hwn ac yn falch o gael y cyfle i fwydo ystod eang o leisiau'r sector i'r cynllunio ar gyfer Cyllideb ddrafft 2021-22. Diolchwn i'r mudiadau a roddodd eu mewnbwn, gan gynnwys Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW), Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit, Busnes yn y Gymuned, Interlink a Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru.

YMWYBYDDIAETH O'R DDEDDF A'I GOBLYGIADAU

3. Tra bod ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yn weddol uchel ar draws y sector gwirfoddol, mae ein hymgysylltiad ni'n awgrymu nad dyma'r achos ar lefel gymunedol, gyda'n haelodau'n awgrymu nad oes llawer o fudiadau ar lefel leol yn dangos rhyw lawer o ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'r Pum Dull o Weithio.
4. Mae'r Ddeddf yn ymddangos yn amherthnasol ac yn 'bell o realiti bywydau pob dydd pobl', fel dywed Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS), sy'n golygu hyd yn oed pan weithredir o ganlyniad uniongyrchol i'r Ddeddf, nad yw pobl yn sylweddoli mai'r Ddeddf a achosodd i'r gweithredu hwn ddigwydd. Rhaid i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol rannu pa weithredu sydd wedi'i gyflawni'n uniongyrchol yn enw'r Ddeddf ac amlygu ei effaith. Gall y sector gwirfoddol chwarae rhan wrth raeadru'r wybodaeth hon, yr ymddengys bod galw mawr amdani ar lawr gwlad.

5. Ceir cwestiwn ynglŷn ag effeithlonrwydd defnyddio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) fel sbardun i'r Ddeddf. Mae partneriaid y sector sy'n gweithio ar lefel BGC yn dweud wrthym nad yw'r Ddeddf yn cael ei defnyddio fel modd o fesur yr hyn mae BGC neu eu partneriaid wedi ei gyflawni. Gallai'r sector weithredu fel gwell corn siarad i'r Ddeddf gyda phartneriaid BGC, pe bai'n derbyn gwell adnoddau er mwyn chwarae'i ran yn llawn ar lefel BGC. Fodd bynnag, fel yr adroddom cyn hyn, mae nifer o fudiadau'r sector yn ei chael hi'n anodd o ran yr amser a'r profiad sy'n angenrheidiol er mwyn chwarae rhan yn gywir ac yn hyderus. Yn ogystal, caiff mudiadau'r sector eu gweld yn rhy aml fel 'is' bartner gan y mudiadau eraill o gwmpas y bwrdd.

YR ADNODDAU SYDD AR GAEL I GYRFF CYHOEDDUS ER MWYN GWEITHREDU'R DDEDDF A PHA MOR EFFEITHIOL MAEN NHW WEDI'U DOSBARTHU

O bosibl oherwydd bod y Ddeddf yn rhywbeth y mae pawb i fod yn gweithio tuag at ei chyflawni, ar draws a rhwng y Nodau Llesiant, ni chafwyd ffrwd gyllido benodol â'r nod pendant o'i gweithredu. Fel dywed AVOW ac Interlink, mae hyn yn wahanol iawn i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, er enghraifft.

6. Byddai datblygiad ffrwd gyllido wedi'i neilltuo i'r Ddeddf, neu o bosibl i un neu ddau o'r Nodau Llesiant (wedi'u dewis gyda chymorth ymgynghoriad ac ymgysylltiad) er mwyn darparu diffiniad penodol yn rhoi canolbwynt i fudiadau weithio tuag ato ond hefyd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer datblygu partneriaethau mwy ffurfiol ar draws sectorau penodol er mwyn gwireddu'r Nodau hynny.
7. Bydd cyrff cyhoeddus yn aml yn datblygu polisiau a rhaglenni mewn seilos, gan arwain at ychydig iawn o weithio cydlynus ar draws mudiadau. Rhaid i Lywodraeth Cymru annog newid yn hyn o beth er mwyn i'r Ddeddf lwyddo. Mae'n bwysig cynnwys pobl wrth roi'r Ddeddf ar waith. Fodd bynnag, fel sy'n digwydd yn aml, prin iawn y bydd dinasyddion yn cael eu cynnwys o'r cychwyn yn y broses o ddatblygu polisiau a gwasanaethau i gwrdd â'u hangenion.
8. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru fynegi wrth Awdurdodau Lleol pa mor bwysig yw cynnwys cymunedau yn y Ddeddf, gan bwysleisio pwysigrwydd cydgynhyrchiad gwirioneddol. Cymharwn hyn ag ymglymiad amhrisiadwy cymunedau wrth weithio ag Awdurdodau Lleol yn ystod yr ymateb i Covid-19 a nodwn ei fod o fudd pendant i'r holl bartneriaid i adeiladu ar y cysylltiadau hyn.

CEFNOGAETH A DDARPERIR I GYRFF CYHOEDDUS GAN GOMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL

9. Mae rhai o'n haelodau wedi beirniadu'r hyn a welant fel 'tawelwch' ar ran Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystod argyfwng Covid-19, gan fynegi y dylai'r Comisiynydd fod i'w gweld yn herio gwleidyddion er mwyn sicrhau cydweddiad â'r Ddeddf ac ar draws y Nodau Llesiant, yn enwedig ynghylch iechyd y boblogaeth ac effaith Covid-19.
10. Mae cyfarwyddyd y Comisiynydd ei hun i gyrff cyhoeddus yn annog rhanddeiliaid i fynd ati i gynnwys cymunedau mewn modd sy'n seiliedig ar asedau. Dylid atgoffa Awdurdodau Lleol o hyn a gweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol er mwyn adeiladu ymdriniaeth gynaliadwy gan ddefnyddio cefnogaeth seilwaith sefydledig y trydydd sector.
11. Adroddodd Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru fod gofyn i fudiadau weithredu'r Pum Dull o Weithio heb dderbyn cyfarwyddyd ar sut i wneud hynny. Mae uwchsgilio'n hanfodol fel bod pawb yn deall beth yw'r Dulliau o Weithio a sut y gallen nhw edrych, gydag ymglymiad dinasyddion. Yna, bydd angen anogaeth a chefnogaeth ar fudiadau wrth iddynt geisio rhoi'r dulliau hyn ar waith a dogfennu eu dysgu, gyda digon o amser wedi'i ganiatáu er mwyn rhannu arfer dda. Mae gwella dealltwriaeth yn hanfodol er mwyn gwneud llwyddiant o ymglymiad dinasyddion. Mae'r sector yn gwerthfawrogi bod sawl pwynt cyswllt yn cael eu rheoli gan swyddfa'r Comisiynydd a chroesawir y syniad o fforwm drafodaeth reolaidd rhwng y sector a'r Comisiynydd.

RÔL ARWEINYDDOL LLYWODRAETH CYMRU

12. Dylai Llywodraeth Cymru roi lle blaenllaw i'r Ddeddf wrth iddi 'ailgodi'n gryfach' yn sgil y pandemig. Mae'r ailgodi'n rhoi cyfle i dynnu sylw pobl yn ôl at ba mor hanfodol yw'r Ddeddf i'r adferiad hirdymor. Byddai peidio â gwneud hynny yn ei gwneud hyd yn oed yn anoddach, yn yr hirdymor, i ddangos i bobl beth yw buddion y Ddeddf. Mae angen i Lywodraeth Cymru a phartneriaid sefydlu sut mae sylfaen gadarn i ailgodi'n edrych – heb hynny, mae'n bosibl na fydd unrhyw ailgodi'n ddigon sefydlog i oroesi argyfyngau yn y dyfodol.
13. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ffrydiau cyllido, boed nhw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Ddeddf ai peidio, yn cael eu rheoli'n dda, yn cael eu cyflwyno ar amser, yn cael eu datblygu ar gyfer yr hirdymor, yn dod â chanllawiau clir, yn galluogi i gyllid gael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf, ac nad ydynt yn gosod ffenestr hynod gul i fudiadau ar gyfer gwario'r arian.

14. Byddai strategaeth arbennig o drosfwaol ar gyfer datblygu cymunedol, wedi'i fframio gan y Ddeddf, yn sicrhau cysondeb mewn arferion o fewn Llywodraeth Cymru ac yn atal gweithio mewn seilos. Awgrymw'n eich bod yn edrych ar ein hadroddiad ar [Rymuso Cymunedau](#).

UNRHYW RWYSTRAU ERAILL I WEITHREDU'R DDEDDF YN LLWYDDIANNUS? (E.E. BREXIT, COVID-19...)

15. Gyda chyfnod pontio Brexit yn dod i ben o fewn wythnosau, mae'n bwysig bod dadansoddiadau'n cael eu gwneud er mwyn gweld ble a sut y gallai cyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU fod o gymorth wrth gyflwyno'r Ddeddf.

16. Mae Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig yn peri bygythiad sylfaenol i gyflwyniad llwyddiannus y Ddeddf. Ar lefel trosfwaol byddai'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn anoddach i Gymru gyflwyno polisiau sydd wedi'u teilwra i gwrdd â gofynion lleol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn meysydd fel polisi amgylcheddol, ond gallai'r pryder fod dipyn yn ehangach a gallai fod yn berthnasol i amrywiaeth o amcanion polisi cymdeithasol, gyda phryderon wedi'u mynegi, er enghraifft, o fewn y sector tai cymdeithasol ac ynghylch safonau llafur, hawliau dynol ac iechyd cyhoeddus.

17. Mae asesiad effaith rheoleiddiol Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig ei hun yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd buddion cymdeithasol a allai fod wedi'u gwireddu trwy bolisiau lleol yn gyraeddadwy o dan y ddeddfwriaeth hon, ond yn gweld hyn fel pris derbyniol i'w dalu os yw'n arwain at well effeithlonrwydd economaidd ar draws y DU.

18. Gallai'r egwyddor gwrth-wahaniaethu, yn enwedig, herio rhywfaint o'r gwaith sy'n ymwneud ag atgyfnerthu'r Economi Sylfaenol yng Nghymru, ynghyd â pholisi caffael (y mae angen ei ddiwygio).

19. Mae gwasanaethau ymchwilio'r Senedd hefyd wedi amlygu yn eu [Briff Ymchwil a Chyfreithiol](#) ar y Bil bod posibilrwydd y gallai'r ddeddfwriaeth rwystro gofynion yr iaith Gymraeg rhag cael eu cyflwyno mewn rhai achosion.

20. Mae cylchoedd cyllido tymor byr, fel sy'n cael ei ddisgrifio uchod, yn gyrru meddylfryd tymor byr, ac yn methu ag edrych tuag at weithredu'r Ddeddf yn yr hirdymor.

21. Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn incwm nifer o fudiadau yn sgil Covid-19, gan arwain at leihad mewn darpariaeth gwasanaeth a gostyngiad yn niferoedd staff. Golyga hyn, yn ei dro, fod gwasanaethau a fyddai fel arall o gymorth wrth weithredu gofynion y Ddeddf naill ai ddim yn gweithredu o gwbl, neu'n gweithredu'n llai aml neu'n llai effeithlon.

22. Mae'r pandemig wedi arwain hefyd, yn naturiol, at lawer o gynllunio tymor byr fel mesur 'ymladd tân'. Golyga hyn fod cynllunio tymor hirach yn heriol dros ben i Awdurdodau Lleol

a Byrddau Iechyd.

23. Nid yw'r sector, na dinasyddion, yn derbyn digon o adnoddau na digon o gefnogaeth er mwyn sicrhau llais cymunedol cryf pan wneir penderfyniadau ar lefel y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Rhaid i hyn newid os ydym eisiau i benderfyniadau gwell gael eu gwneud. Egwyddor ymgysylltu'r Ddeddf yw ymwreiddio nid yn unig mewn polisi, ond hefyd mewn arfer.

SUT MAE SICRHAU BOD Y DDEDDF YN CAEL EI GWEITHREDU'N LLWYDDIANNUS YN Y DYFODOL?

24. Mae ein hymgysylltiad yn awgrymu y dylai cynlluniau hirdymor, gan gynnwys fframwaith a/ neu gerrig milltir, gael eu rhoi mewn lle er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei monitro'n effeithiol, gyda gwasanaethau'n cael eu cynllunio fel bod ganddynt gyswllt clir â'r Ddeddf. Yn ôl AVOW, heb hyn ceir perygl y bydd cydymffurfio â'r Ddeddf yn ddim mwy nag ymarfer 'ticio bocsys' yn hytrach na chyfle i ail-lunio cymunedau ar gyfer y dyfodol. Gallai strategaeth newydd ar gyfer cymunedau, fel sy'n cael ei thrafod uchod, ddarparu hyn.

25. Ceir, ar adegau, ddiwylliant o'r brig i lawr mewn cyrff cyhoeddus, a gall hyn fod yn rhwystr. Rhaid i gyrff gael eu cefnogi er mwyn gweithio'n gydgyhyrchiol â dinasyddion, cymunedau a'r sector er mwyn cyflawni amcanion y Ddeddf.

26. Dylid defnyddio cyllid o'r Gronfa Cyfoeth Cymunedol, a gyllidir gan y Cynllun Asedau Segur arfaethedig, er mwyn darparu cyllid ychwanegol i brosiectau cymunedol sy'n cefnogi'r Ddeddf.

27. Mae Busnes yn y Gymuned wedi tynnu sylw at eu [Map Busnes Cyfrifol](#) a [Thraciwr](#) fel teclynnau i fusnesau eu defnyddio i ddangos eu hymroddiad i'r Ddeddf.

28. Gall gweithio'n seiliedig ar leoliad fod o gymorth wrth roi datrysiadau lleol yn eu lle yn gyflym, gan adeiladu ar yr hyn sy'n bodoli eisoes mewn ardal benodol.

29. Mae gofyn i BGCau weithio gyda a mapio seilwaith sy'n cael ei rhedeg gan y gymuned fel rhan o asesiadau llesiant, fel yr awgrymir gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau.

30. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am ragor o eglurdeb ynglŷn â Chronfa Ffyniant Cyffredin y DU. Gallai hyn, yn ei dro, fod yn ffynhonnell werthfawr o gefnogaeth gymunedol, gan adeiladu ymhellach tuag at amcan y Ddeddf.

TRAFODAETH

31. Bydd CGGC yn falch o drafod y rhain neu unrhyw bwyntiau eraill yn ymwneud â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad gyda swyddogion, pwyllgorau neu Weinidogion, pe bai angen.

David Cook,
Swyddog Polisi, CGCG
dcook@wcva.org.uk

Tachwedd 2020